# Cylchlythyr yr Hydrefr

Croeso cynnes i bawb sy'n newydd i Ysgol Plas Coch! Rwy'n nesáu at ddiwedd fy mlwyddyn gyntaf fel Cadeirydd y CRhA, gyda'r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ar nos
Iau, Hydref 16eg am 6 o'r gloch yn yr ysgol.
Rwy'n edrych ymlaen at weld faint o arian sydd wedi cael ei godi dros y flwyddyn ddiwethaf gan ein tîm anhygoel o wirfoddolwyr, gyda chefnogaeth holl rieni a staff yr
ysgol. Mae ein trysorydd, Kate Wynne, wedi bod yn brysur iawn yn paratoi'r cyfrifon
ac yn sicrhau ein bod yn cydymffurfio â'r holl reolau cyfreithiol. Diolch enfawr i Kate,
mae hi'n gwneud cymaint o waith tu ôl i'r llenni, o baratoi arian mân ar gyfer digwyddiadau i gadw trefn ar stoc ac edrych am ffyrdd newydd o godi arian. Mae hi
wastad yn gwirfoddoli hefyd! Mae hi wir yn ased i'n tîm.



Cynhaliwyd ein cyfarfod CRhA cyntaf eleni'n ddiweddar, lle cawsom ddiweddariad ar nifer o brosiectau. Ariannodd y CRhA llynedd am gludiant ar gyfer teithiau ysgol, ar gost o £2500. Bu hefyd brosiectau llai fel darparu sleisys melon i bob plentyn ar ddiwrnodau mabolgampau (a gafodd groeso mawr!), rhodd o £100 tuag at weithgareddau Blwyddyn 6, a £320 i dalu am y bws i gludo'r côr i Eisteddfod Llangollen. Efallai eich bod hefyd wedi sylwi bod y strwythur pren ar fuarth yr ysgol wedi cael ei ailagor - trefnwyd a rhannol-ariannwyd y gwaith gan y CRhA. Diolch i Frances Perrin am gydlynu hyn. Cynhaliwyd y gwaith yn ystod gwyliau'r haf gan JE Construction, gyda chefnogaeth garedig gan Wrexham Travis Perkins a Tyre Trend.
Mae hyn yn rhan o brosiect mwy i barhau i gynnal a gwella'r ardal awyr agored.
Rydym hefyd yn gwneud cais am gyllid allanol i helpu gyda'r prosiect hwn.
Yn y cyfarfod, buom yn trafod pa ddigwyddiadau yr hoffem eu trefnu eleni. Rydym bellach yn chwilio am wirfoddolwyr i'n helpu i gynllunio a chyflawni ein cynlluniau uchelgeisiol. Mae'n wir iawn bod "llawer o ddwylo'n ysgafnhau'r gwaith"! Gall pawb gyfrannu cymaint neu cyn lleied ag sy'n addas iddyn nhw. Cadwch lygad ar y bwrdd hysbysebion a grwpiau WhatsApp y blynyddoedd am geisiadau o gymorth a chysylltwch os hoffech wirfoddoli.
Eleni rydym yn gobeithio prynu piano newydd, trwsio a gwella sied y CRhA, a pharhau i wella'r mannau awyr agored.

Fel y soniais, bydd y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ym mis Hydref. Mae ein cyfansoddiad yn nodi bod rhaid pleidleisio ar bob rôl ar y pwyllgor. Felly, er fy mod yn hapus i barhau fel Cadeirydd, nid oes gen i hawl awtomatig. Os hoffech chi ystyried rôl, llenwch ffurflen a'i dychwelyd i'r ysgol neu e-bostiwch ni ar plascochpta@gmail.com.

Y rolau i'w pleidleisio arnyn nhw yw Cadeirydd, Ysgrifennydd a Thrysorydd (fel isafswm). Gellir rhannu'r rolau hyn os oes dau neu fwy eisiau cydweithio. Mae ffurflenni ar gael o'r dderbynfa. Mae yna hefyd rolau eraill nad ydynt ar y pwyllgor – am fwy o wybodaeth, gallwch ofyn am gopi o'r cyfansoddiad o'r ysgol neu drwy e-bostio ni.

Rydym hefyd yn chwilio am bobl i lenwi rhai rolau eraill. Rydym eisiau trefnu Ffair y Gwanwyn, felly bydd angen tîm i ddechrau trefnu hynny. Rydym hefyd yn awyddus i wella cyfathrebu gyda rhieni, felly hoffem bobl i helpu gyda'r bwrdd hysbysebion ac i bostio negeseuon ar grwpiau WhatsApp y blynyddoedd. Yn ddelfrydol, hoffem gael cynrychiolwyr blwyddyn. Po fwyaf o bobl sy'n cymryd rhan, ysgafnach yw'r gwaith a fwyaf yw'r llwyddiannau.

Rwy'n edrych ymlaen at gwrdd â mwy o rieni yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ar Hydref 16eg (am 6 o'r gloch yn yr ysgol). Dewch draw i weld sut mae'r CRhA yn gweithio - yr unig ddisgwyliad yw eich bod yn bwyta o leiaf un fisged!

Yn olaf, diolch i bawb sydd wedi cofrestru ac yn defnyddio Easyfundraising (easyfundraising.org.uk). Ar hyn o bryd mae 41 o gefnogwyr sydd gyda'i gilydd wedi codi £167 dim ond drwy siopa ar-lein (ac mae modd ei ddefnyddio yn y siop bellach!). Mae'r person ar y brig wedi codi £41 anhygoel.– Rwy'n trio eich dal chi i fyny, ond mae gen i dipyn i fynd! Hefyd, diolch i'r rhai sydd wedi ymuno â'r Loteri Rhieni (theparentslottery.org) – mae 42 o gefnogwyr wedi codi £232 hyd yma.


Gobeithio eich bod wedi cael defnydd da o'ch labeli enwau Stikins am ddim! Cofiwch, gellir codi mwy o arian i'r ysgol drwy ddefnyddio ein cod 15909 wrth archebu mwy (stikins.co.uk).

***Cofiwch bydd y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ar Hydref 16eg, ac yna cyfarfod CRhA yn dilyn. Byddai'n wych gweld rhai wynebau newydd. Rydym yn griw cyfeillgar iawn... a soniais i fod bisgedi?***



# Autumn Newsletter

A warm welcome to those new to Ysgol Plas Coch. I am fast approaching the end of my first year as Chair of the PTA, with the AGM set for Thursday 16th October at 6pm in the school. I am looking forward to finding out how much money we have raised over the last 12 months by the wonderful team of volunteers with the support of all parents and teaching staff. Our current treasurer, Kate Wynne, has been busy preparing our accounts and filing our returns to ensure that we comply with legal requirements. A huge thanks to Kate, who does a lot of work behind the scenes, such as preparing floats for events, exploring new fundraising opportunities and stock controls our supplies. She always volunteers for events too. She is a real asset to our team.



We had our first PTA meeting of this academic year recently, where we were updated on various projects. The PTA funded transport for school trips last year, at a cost of £2500. There were also smaller projects such as melon slices given to every pupil on sports days (which were very well received), a donation of £100 to Year 6 events and £320 for the bus taking the choir to Llangollen Eisteddfod. You may also have noticed that the wooden structure in the school yard has been re-opened. The repair work was arranged and part-funded by the PTA. Thanks to Frances Perrin for co-ordinating this. The work was carried out during the summer holidays by JEConstruction, with generous donations from Wrexham Travis Perkins and Tyre Trend. This is part of a bigger project to continually maintain and improve the outdoor space. We are applying for external funding to help with this bigger project. At the meeting we also considered what events would like to arrange this academic year. We are now looking to recruit enough volunteers to plan and deliver our ambitious plans. It is very much a case of many hands make light work. We can only do what we can do and every volunteer is in control of how much time they give. Please keep an eye on the noticeboard and Year WhatsApp groups for requests to help and get in touch to volunteer. This year, we are looking to purchase a new piano, repair and improve the PTA shed and continue with the improvements to the outdoor space.

As I mentioned, the AGM will be held in October. The rules of our constitution state that all committee roles are to be voted on. This means that, although I am willing to continue as Chair, I have no automatic right. If you are interested in a role, please complete a form and return either to school or email plascochpta@gmail.com. The roles to be voted on are Chair, Secretary and Treasurer (as a minimum). These roles can be shared where more than one person wishes to take on a role. Application forms are available from school reception. There are also roles that are not Committee roles. For more information, see our constitution which is available at school or by emailing plascochpta@gmail.com.

There are a number of non-committee roles that we are looking for volunteer to fill.
We are hoping to organise a Spring Fair and so need a team to begin the preparations. We also want to continue to improve our communication with parents, so are looking for people to manage the noticeboard and more people to post messages on the year WhatsApp groups. Ideally, We would like year reps. More volunteers means smaller tasks and bigger acheivements.

I look forward to meeting more parents at the AGM on 16 th October (6pm at school). Come along to find out how the PTA works. The only expectation in attending is that you eat some of the biscuits.

Finally, thank you to those who are signed up and using Easyfundraising (easyfundraising.org.uk). There are currently 41 supporters who together have raised £167 just by shopping online (and can now be used instore). The current leader has raised an amazing £41. I am trying to catch you up, but I am some way off. Also, thanks to those who have signed up to the Parents Lottery (theparentslottery.org). There are 42 supporters raising £232 so far.

I hope you have found your free Stikins name labels useful. More money can be raised for school by using our fundraising code 15909 when purchasing more (stikins.co.uk).

***Remember, the AGM is on October 16 th , followed by a PTA meeting. It would be great to see some new faces. We are a friendly bunch. Did I mention that there will be biscuits?***

